

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Iau Ebrill 17ddeg - 2014
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cyngorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Gill Cheverton (Is – Gadeirydd (GC), Geraint Parry (Clerc), Lewis Davies(LD), Alwena Roberts (AW), Rhian Hughes (RH), Alwyn Rowlands (AR), Dafydd Pritchard (DP), Paul Gash (PG)
Agorwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, wrth fynd yn syth i drafodaeth Llwybr 15 a 22.
Oedd Gwennan, Ruth a Llion Davies yn bresennol i drafod Llwybr 15 a 22 Ffynnon Oer / Erwau'r Môr

2. Ymddiheuriadau - Cyng. Carwyn Jones a Cyng. Maldwyn Williams

3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 26ain o Fawrth fel rhai cywir gan Cyng. G Cheverton, eilio gan Cyng. D Pritchard, gan newid dau bwynt.

4. Materion yn codi o'r Cofnodion

- 4.1 **Llwybr 15 a 22** ger Ffynnon Oer sydd yn rhedeg tuag at Erwau'r Môr - Gwennan yn egluro'r sefyllfa gyda'r tirlithriad gan wneud nifer o gynigion i ail cyfeirio'r llwybr, i'r un y mae'r Cyngor Sir yn awgrymu. Penderfynwyd gwneud ymweliad a'r safle bore Sadwrn 19/04 am 10yb.
- 4.2 **Wefan i'r Cyngor Cymuned** - RH yn awgrymu bod ni yn gofyn cael gosod linc i "Bar Code Scanner" ar y wefan.
- 4.3 **Fynwent Llanddona** - LD yn adrodd bod y Cyngor Sir yn mynd i wthio ymlaen gyda'r pryniant gorfodol. MR - mae arwyddion i fyny.
- 4.4 **Llwybr Tai Bach** - LD wedi trafod hyn gyda Dewi Williams, lle mae yn rhoi pwysa nawr ar y swyddog i ddatrys y broblem. Clerc yn darllen e-bost a dderbyniwyd gan Edward Evans. Clerc i anfon llythyr i'r Cyngor Sir.
- 4.5 **Difrod ar y Traeth** - Clerc i gysylltu ar Swyddfa Cofrestru Tir er cael gwybod pwy ydi'r tirfeddiannwr ger Tywyn. MR - mae cerrig sydd wedi ei osod yn beryglus i gerddwyr. Clerc i gysylltu ag Iwan Hughes Cyngor Sir.
- 4.6 **Gwasanaeth Cymdeithasol, adeiladu cymunedau** - Cyngor Sir yn cynnig dyddiadau er mwyn trefnu cyfarfod, wythnos yn dechrau 28 Ebrill neu 2 Fai.
- 4.7 **Llwybrau lleol** - MR yn gofyn faint o ad-daliad yr ydym yn ei gael gan y Cyngor Sir? Clerc i weithredu.
- 4.8 **Defibrilator** - Angen cael mwy o wybodaeth ar yr achos.
- 4.9 **Côr Cymuned Llanddona** - MR wedi gweld hysbyseb yn y papur lleol fod cyllid ar gael ar gyfer materion fel hyn. GC wedi anfon manylion grantiau ymlaen iddynt. Clerc ddim wedi derbyn y wybodaeth a gofynnir gan y Côr.
- 4.10 **Cau Cyfrif Maes Chwarae** - Cadarnhaodd y Clerc fod y cyfrif nawr wedi cau, arian wedi ei drosglwyddo i gyfrif y Cyngor Cymuned.
- 4.11 **Trwsio Swing Maes Chwarae Plant** - dim newyddion ymhellach.

5. Adroddiad gan y Cyngorwyr

LD - Tir Comin o gylch yr Ysgol - Gerallt Jones wedi ysgrifennu ar Cyngor Sir gan ofyn iddynt gofrestru tir yn enw'r Cyngor Cymuned. Clerc i ofyn i Menter Môn cofrestru'r tir, a dim disgwyl cael mewnbwn gan y Cyngor Sir.

LD - Adran AHNE, wedi cael gair gyda swyddog o'r adran, nid oedd sylwad gan y swyddog am gais Cae Maes Mawr. Mae'r cais nawr wedi ei ohirio. MR yn adrodd fod yn meddu mynychu ar gyfarfod cynllunio nesaf, felly LD am ofyn i CJ oes ydi yn gallu mynychu. Clerc i anfon e-bost MR ymlaen. Clerc wedi gofyn bod aelod o'r adran gynllunio i fynychu ein cyfarfod nesaf.

LD - Maes Parcio Ponc y Felin, DP yn adrodd fod trigolion lleol ddim yn hapus gyda'r cynnig gan y Cyngor Sir i osod llinellau ar y ffordd. AR am drafod y mater gyda'r swyddogion. Clerc i anfon llythyr ymlaen i'r adran.

AR - wedi bod yng Nghasnewydd i weld pa brofiad oedd ganddynt o fynd trwy asesiad corfforaethol, fel yr un mae Ynys Môn am gael.

AR - ymuno gyda Gwynedd - mae'r mater yn ein dwylo, ond yn teimlo nad ydi'r adroddiad Williams yn cynorthwyo materion, ond mae gweithio da ar y cyd gydag awdurdodau eraill yn mynd ymlaen. Mae llawer o brosiectau mawr ar y gweill ac mae rhaid sicrhau bod yna manteision cymunedol.

LD - Cyngor Sir i edrych i mewn i faterion cadw'r biniau yn Ponc y Felin.

6. Datgan Diddordeb

Cyng. L Davies ac A Rowlands ar geisiadau isod.

7. Ceisiadau Cynllunio

- 22C47A/1/VAR - Cais i amrywio amod 02 (cyflwyniad o gais manylion llawn) o gais cynllunio 22C47Y i alluogi 3 blynedd bellach i gyflwyno manylion llawn yn Mynydd Crafoed, Llanddona - dim gwrthwynebiad.
- 22C217 - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Glan Gors, Llanddona - dim gwrthwynebiad.

8. Tir Comin

Dim newyddion ymhellach.

9. Llwybr Tan Dinas rhif 57

Cyngor Cymuned wedi cael estyniad i ymateb y cynnig gan y Cyngor Sir i gau rhan o lwybr a chreu llwybr arall yn ei le.

MR wedi cael trafodaeth gyda'r tîrfeddiannwr, lle mae ganddo bryderon bod y llwybr newydd i fynd trwy ddau o'i gaeau sydd yn arwain i le peryglus iawn, yn arwain i unman. Byddai'r gost o gynnal a chadw'r llwybr yn disgyn ar y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd yn unfrydol i wrthod y cynnig gan y Cyngor Sir.

10. Cyfrifon - cytunwyd i dalu:-

- Hurio Ystafell Ysgol, Ebrill- £20.00
- Cyflog y Clerc, Ionawr - Mawrth 2014 - £411.03
- Yswiriant Blynyddol AON 2014/15 - £244.10
- Anglesey Computers - costau cynnal a dylunio hyd at Fawrth 2016 - £520.00

11. Gohebiaeth

Llythyr - LD AHNE

E bost - Gerallt Jones, tir comin Llanddona

E bost - Llwybr Tai Bach, Edward Evans

E bost - Arwel Evans, coeden wedi disgyn ar y llwybr

E bost - Edward Evans, côr Llanddona

Llythyr - dadgomisiynu gwasanaeth camarau

Llythyr - Awdit 2013/14

Llythyr - Cyngor Sir, Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad

Llythyr - AON, yswiriant 2014/15

12. UFA:

12.1 Mynegwyd pryder gan nad ydi cofnodion ein cyfarfod yn ddwyieithog. Awgrymwyd defnyddio cyfieithiad ar y we dros dro. Awgrymodd MR i greu fersiwn bwyntiau bwled ddwyieithog ar gyfer ein gwefan.

12.2 Dadgomisiynu gwasanaeth camarau Cyngor Sir, dod i ben 30/05/14.

12.3 DP - Coeden wedi disgyn ar y llwybr ger maes chwarae plant. Cyngor Sir i glirio.

12.4 Grantiau ar gyfer sefydliad gwirfoddol - RH i anfon ymlaen i aelodau côr.

12.5 Hyfforddiant Cod Ymddygiad - penderfynwyd derbyn 29/10/14.

12.6 Awdit Blynyddol 2013/14 - angen ei gwblhau 9/05 i'r awditor mewnol.

12.7 Cerrig wedi cael ei gosod ger y ffordd ger Llain Gron. Yn beryglus iawn i gerddwyr a cheir. Clerc i weithredu.

12.8 RH - wedi cael cwyn fod eithin yn tyfu dros y wal i'r ffordd ger y Tŷ Tafarn. Yn beryglus i gerddwyr. MR I drafod gyda'r tîrfeddiannwr.

13. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.55 o'r gloch.

Penderfynwyd Cyfarfod nesaf 21/05/14 am 7.30.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad